**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our Ref: MA/HIDCC/5128/24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

17 Medi 2024

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn y llythyr a anfonais atoch ar 21 Mai i roi gwybod ichi fy mod yn bwriadu rhoi fy nghydsyniad i Lywodraeth y DU wneud Rheoliadau Gorfodi Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024 ("y Rheoliadau").

Rwyf bellach wedi rhoi fy nghydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau hynny. Rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma: Datganiad Ysgrifenedig: Rheoliadau Gorfodi Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024 (16 Medi 2024) | LLYW.CYMRU

Mae'r Rheoliadau'n ategu Deddf Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024 drwy sefydlu pwerau gorfodi, troseddau a chosbau sy'n gysylltiedig â'r gwaharddiad ar allforio da byw perthnasol i'w lladd. Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU, gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol drafft, ar 12 Medi ac mae disgwyl iddynt ddod i rym ar 1 Ionawr 2025.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.